

Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Trefniadau ar gyfer Rheoli'r Galw – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4713A2025

Cynnwys

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti, lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Ffeithiau allweddol	5
Canfyddiadau allweddol	7
Argymhellion	9
Adroddiad manwl	
Trefniadau cynllunio	11
Cael mynediad at wasanaethau	14
Trefniadau craffu a monitro	25
Atodiadau	
Atodiad 1 – dulliau archwilio	29
Atodiad 2 – meini prawf archwilio	32
Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr	36

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2024 o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd). Y gwaith hwn yw ail gam rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar nifer o elfennau o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru. Adroddwyd ar y cam cyntaf, a archwiliodd drefniadau i gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac effaith llif cleifion ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, ar wahân.
- 2 Mae ein dull yn cydnabod bod y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth, gyda'r angen i nifer o wahanol sefydliadau gydweithio i ddarparu gofal brys a gofal mewn argyfwng ac i sicrhau bod y system ehangach yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (Rhaglen y Chwe Nod) gan Lywodraeth Cymru, a lansiwyd yn 2021, sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer ein gwaith. Ar adeg ein gwaith, roedd y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru'n dal i fod dan bwysau sylweddol.
- 3 Mae ein gwaith wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng i leihau pwysau diangen ar y system. Fe'i gwnaed i helpu i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod wedi'i argyhoeddi bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau.
- 4 Fe wnaethom ni ein gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Caiff y dulliau a'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i wneud ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiadau 1 a 2**.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol	
824	Nifer yr apwyntiadau brys ac aciwt ¹ gyda meddygon teulu a oedd ar gael y dydd fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 751. Mae hyn yn ostyngiad o 16.1% ers mis Ebrill 2023.
898	Nifer y cysylltiadau â gwasanaethau y tu allan i oriau arferol meddygon teulu y mis fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ym mis Gorffennaf 2024 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 973.
53 ²	Nifer y cysylltiadau mewn Canolfan Gofal Sylfaenol Brys, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 433 fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ym mis Mawrth 2025.

Gwasanaethau Ambiwylans	
177%	Cynnydd mewn galwadau ambiwlans Categori A (coch) rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2025 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 127%.
53%	Galwadau ambiwlans Categori A (coch) yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud ym mis Chwefror 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 50% a tharged cenedlaethol o 65%. Mae hyn yn ostyngiad o 18% o'i gymharu â mis Ebrill 2019.
20%	Cleifion a drosglwyddwyd o ofal criwiau ambiwlans i ofal yr adran argyfwng o fewn 15 munud i gyrraedd ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 14% a tharged cenedlaethol o 100%. Mae hyn yn ostyngiad o 53% o'i gymharu â mis Ebrill 2019.

¹ Diffinnir apwyntiadau brys ac aciwt fel apwyntiadau ar gyfer cyflyrau brys neu aciwt sydd wedi digwydd dros y tymor byr.

² Mae'r nifer isel yma i'w briodoli i'r ffaith mai dim ond un ganolfan triniaeth frys yr oedd y rhanbarth yn ei gweithredu ar adeg ein harchwiliad, sef yr un yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, a oedd wedi bod yn ei lle ers mis Tachwedd 2024.

Gwasanaethau Ysbytai

2.6%	Gostyngiad yn nifer y derbyniadau i Adrannau Argyfwng y Bwrdd Iechyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2025, o'i gymharu â gostyngiad cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan o 8%.
1691	Nifer y bobl a fu'n aros am fwy na 12 awr yn Adrannau Argyfwng y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn gynnydd o 80% ers mis Ebrill 2019.
05:33	Yr amser cyfartalog a dreuliwyd yn Adrannau Argyfwng y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 5 awr, 27 munud. Mae hyn yn ostyngiad o 1 awr 30 munud ers mis Ebrill 2019.
343	Nifer y derbyniadau i'r Unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 278.

Cyllid

£63m	Arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r Bwrdd Iechyd am y cyfnod 2022-25 ar gyfer adferiad gofal a gynlluniwyd a gofal brys a gofal mewn argyfwng y tu hwnt i gyllid craidd y Bwrdd Iechyd.
£5.7m	Arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn a gafwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2023-24 a 2024-25 i roi cymorth i wireddu uchelgeisiau Rhaglen y Chwe Nod.

Negeseuon allweddol

Casgliad ar y cyfan

- 5 Ar y cyfan, canfuom fod **perfformiad gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn dal i fod yn gryn her. Er bod cynlluniau a gwasanaethau newydd, gan gynnwys yr Hyb Llywio, yn cael effaith gadarnhaol ar reoli'r galw, mae angen rhagor o weithredu i wella mynediad, ymgysylltiad â chleifion a staff ac eglurhau'r gofynion o ran adnoddau.**

Canfyddiadau allweddol

Trefniadau cynllunio

- 6 Mae gan y Bwrdd lechyd gynlluniau rhesymol i nodi sut y bydd yn rhoi Rhaglen y Chwe Nod ar waith i reoli gofal brys a gofal mewn argyfwng yn well. Mae cynlluniau'n cyd-fynd â gofynion Rhaglen y Chwe Nod ac yn nodi camau gweithredu allweddol sy'n cynnwys gweithgareddau megis datblygu'r Hyb Llywio³.
- 7 Mae'r Bwrdd lechyd yn dangos ymrwymiad amlwg i roi'r cynlluniau hyn ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau'n nodi'r trefniadau staffio gofynnol a cheir diffyg eglurder ynddynt o ran sut y bydd modelau newydd yn cael eu hariannu yn y tymor canolig a hwy.

Cael mynediad at wasanaethau

- 8 Nid oes gan y Bwrdd lechyd gynllun cyfathrebu ar gyfer y modd y mae'n rhyngweithio â'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid ar ofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae'r Bwrdd lechyd yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd ac yn darparu gwybodaeth ar eu cyfer trwy ei wefan a'i blatfformau ar y cyfryngau cymdeithasol, ond nid yw'r rhain yn hygyrch i bawb, ac mae'r wefan yn anodd i'w gwe-lywio. Nid yw'r Bwrdd lechyd yn gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgarwch cyfathrebu yma ar hyn o bryd, ac mae adborth yn ystod ein hadolygiad yn dynodi bod angen gwneud gwaith pellach i gryfhau negeseuon cyhoeddus ynglŷn â diben gwasanaethau a sut i gael mynediad atynt.
- 9 Mae dull y Bwrdd lechyd o reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn esblygu, ond ceir bylchau o hyd o ran ymgysylltu â staff a chleifion. Yn niffyg cynllun cyfathrebu, soniodd staff am ymwybyddiaeth amrywiol o lwybrau gofal amgen. Mae'r Rhaglen Trawsnewid Meddygaeth Aciwt yn Strategol (STAMP), a

³ Mae'r Hyb Llywio, a gaiff ei staffio gan dîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys meddygon teulu, cyfarwyddwyr clinigol ac aelodau o grwpiau gofal, yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer brysbennu cleifion yn rhanbarth y Bwrdd lechyd a'u cyfeirio at opsiynau gofal addas

lansiwyd ym mis Gorffennaf 2024, yn amcanu at safoni'r modd y darperir gofal brys a gofal mewn argyfwng ar draws safleoedd aciwt. Mae data atgyfeiriadau'n dangos bod gwasanaethau 999 ac 111 yn gyson â chyfartaleddau Cymru gyfan fwy neu lai, er bod 111 yn cyfeirio llai o gleifion at wasanaethau amgen. Mae'r Hyb Llywio, a gyflwynwyd yn 2020, wedi helpu i osgoi derbyniadau mewn 87% o achosion, ond mae staff wedi codi pryderon ynghylch seilwaith, cyfraddau cadw, a chymysgedd sgiliau ar gyfer y gwasanaeth hwn.

- 10 Mae gan y Bwrdd Iechyd rwydwaith cryf o fferyllfeydd cymunedol, gyda'r gyfradd uchaf y pen o'r boblogaeth meddygon teulu yng Nghymru a chyfranogiad llawn yn y chynllun anhwylderau cyffredin. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu tair uned Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod (SDEC), gyda chynlluniau i ehangu oriau a gwella llwybrau atgyfeirio. Mae cyfraddau'r ymweliadau'n uchel, ac mae cyfraddau rhyddhau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n dynodi defnydd effeithiol. Fodd bynnag, mae atgyfeiriadau gan y gwasanaeth ambiwlans at unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod yn dal i fod yn isel oherwydd rhwystrau i fynediad, ac nid yw arfer cyfredol yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar atgyfeiriadau uniongyrchol gan barafeddygon. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi peilotu Canolfan Gofal Sylfaenol Brys ac mae'n parhau i werthuso ei photensial.
- 11 Mae'r galw am ambiwlansys ledled ardal y Bwrdd Iechyd wedi codi'n sylweddol ers y pandemig, gyda nifer y galwadau coch wedi mwy na dyblu o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig. Er bod galwadau ambr wedi lleihau, mae cyfraddau cludo i'r ysbyty'n dal i fod yr uchaf yng Nghymru, gyda 98.4% o gleifion yn cael eu cludo i brif Adrannau Argyfwng sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae atgyfeiriadau at unedau amgen, gan gynnwys Unedau Mân Anafiadau ac unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod, yn sylweddol isel. Mae oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys yn dal i fod yn bryder mawr gydag oedi'n cynyddu risg i gleifion ar gyfer y rhai ar yr ambiwlans yn ogystal ag effeithio ar amseroedd ymateb ambiwlansys, sy'n dal i fod islaw targedau cenedlaethol ar gyfer galwadau coch ac ambr. Mae cyfraddau'r ymweliadau mewn Adrannau Argyfwng yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, ac er bod perfformiad pedair awr wedi aros yn sefydlog, mae nifer y cleifion sy'n aros dros 12 awr wedi cynyddu'n gyflym.

Trefniadau craffu a monitro

- 12 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal wrthi'n datblygu ei ddull o fonitro llwybrau clinigol amgen. Mae'n adolygu data byw ar oedi gydag ambiwlansys a chyn trosglwyddo yn rheolaidd trwy ddangosfyrddau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Er bod metrigau yn eu lle ar gyfer gwasanaethau fel yr Hyb Llywio ac Adrannau Argyfwng, nododd staff nad yw data cyfredol yn dangos effaith glinigol gwasanaethau amgen yn llawn, a bod anghysonderau rhwng data'r Bwrdd Iechyd a data Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu adborth staff a chleifion ond nid yw'n glir sut y mae hyn yn goleuo newidiadau i wasanaethau.
- 13 Ceir goruchwyliaeth weithrediadol gref ar gyfer perfformiad a chyflawni cynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng trwy adolygiadau beunyddiol o berfformiad

strwythurau adrodd rheolaidd sy'n gysylltiedig â Rhaglen y Chwe Nod. Gallai'r Bwrdd lechyd gryfhau goruchwyliaeth strategol ymhellach trwy sicrhau bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru'n cael ei chynrychioli ar Fwrdd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae adroddiadau ar ddatblygiadau penodol, megis yr Hyb Llywio, yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Bwrdd ac mae'r Bwrdd lechyd yn monitro buddsoddiadau mewn prosiectau.

Argymhellion

14 Mae **Arddangosyn 1** yn manylu ar yr argymhellion a gododd o'n gwaith. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd lechyd i'n hargymhellion wedi'i grynhoi yn **Atodiad 3**.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion	
Darparu adnoddau ar gyfer cynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng	
A1	Dylai cynlluniau'r Chwe Nod yn y dyfodol eglurhau sut y defnyddir y dyraniadau ariannol i gyd (Arddangosyn 2).
A2	I roi cymorth i gyflawni mentrau sy'n gysylltiedig â'r Chwe Nod yn barhaus, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ei gynlluniau ar gyfer y Chwe Nod yn adnabod unrhyw anghenion o ran cyllid y tu hwnt i'r dyraniad blynyddol cyfredol (Arddangosyn 2).
A3	I roi cymorth i wireddu uchelgeisiau ei gynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd lechyd nodi'n glir beth yw'r gofynion o ran y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol (Arddangosyn 2).
Gwella gwybodaeth am wasanaethau amgen	
A4	I sicrhau bod cleifion yn gallu dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym ac yn hyderus, dylai'r Bwrdd lechyd wella amlygrwydd a hygyrchedd gwybodaeth am ofal brys a gofal mewn argyfwng ar hafan dudalen ei brif wefan. Gallai hyn gynnwys ychwanegu dolen neu faner wedi'i labelu'n glir sydd mewn lle amlwg (Paragraff 26).

Argymhellion

Monitro'r modd y cydymffurfir â'r canllawiau cenedlaethol ynghylch atgyfeirio at unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod

- A5 I sicrhau y cydymffurfir â'r meini prawf a'r canllawiau cenedlaethol ynghylch atgyfeirio at unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod, dylai'r Bwrdd lechyd gynnal archwiliad o'i ddata ar unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i'r pwyllgor priodol (**Paragraff 51**).

Monitro data ar wasanaethau amgen

- A6 I oleuo prosesau penderfynu, dylai'r Bwrdd lechyd wella ei drefniadau casglu data i gasglu gwybodaeth am effaith glinigol gwasanaethau amgen, megis y rhai y ceir mynediad atynt trwy'r Hyb Llywio (**Arddangosyn 9**).

Sicrhau ansawdd data i oleuo cynlluniau

- A7 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng a'i ddilysu'n rheolaidd, fel y gellir cymryd mwy o sicrwydd wrth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y data sydd ar gael (**Arddangosyn 9**).

Defnyddio adborth staff a chleifion

- A8 I sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn adeiladu ar adborth gan staff a chleifion, dylai cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng ddangos sut y maent wedi ystyried adborth staff a chleifion (**Arddangosyn 9**).

Goruchwyllo a Chraffu

- A9 I gryfhau ei allu i gydgyssylltu cynlluniau strategol a newidiadau i wasanaethau ar gyfer ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd lechyd gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel aelod o'i Fwrdd Cyflawni ar gyfer y Chwe Nod (**Arddangosyn 10**).

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio

- 15 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan y Bwrdd iechyd gynlluniau cadarn i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth bod cynlluniau:
- wedi'u goleuo gan wybodaeth berthnasol a chyfoes;
 - yn adnabod ac yn ceisio ymdrin â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng;
 - yn cyd-fynd â gofynion Rhaglen y Chwe Nod, ac yn nodi'n glir sut y bydd llwybrau clinigol amgen yn gweithio; ac
 - yn adnabod lefelau cyfredol a gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu'r uchelgeisiau bwriadedig.
- 16 Fe wnaethom adolygu Cynllun y Bwrdd Iechyd i Gyflawni Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (2024-25), ynghyd ag adrannau perthnasol o'i Gynllun Blynyddol (2024-25) a'i Gynllun Tymor Canolig Integredig (2024-27) sy'n canolbwyntio ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- 17 Canfuom fod **cynlluniau i reoli'r galw'n rhesymol ac wedi'u hategu gan fuddsoddiad o Raglen y Chwe Nod a chyllid ychwanegol arall. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'n nodi'r lefelau staffio gofynnol ac nid ydynt yn egluro sut y bydd modelau newydd yn cael eu hariannu yn y tymor canolig a hwy.**
- 18 Caiff canfyddiadau ein hadolygiad o gynlluniau eu crynhoi yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: dull o gynllunio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng

Cwestiwn archwilio	Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A yw'r cynlluniau wedi'u goleuo gan wybodaeth berthnasol a chyfoes?	Ydynt	Mae'r cynlluniau'n tynnu ar amrywiaeth o ddata, gan gynnwys gweithgarwch yr Hyb Llywio, a gweithgarwch unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod. Mae'r cynlluniau hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau gweinidogol a lleol allweddol, gan gynnwys cryfhau gwydnwch gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a gwella deilliannau, gyda ffocws penodol ar wella gwasanaethau eiddilwch.

Cwestiwn archwilio	Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A yw'r cynlluniau'n adnabod ac yn ceisio ymdrin â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng?	Ydynt	Mae cynlluniau'r Bwrdd lechyd ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn adnabod risgiau allweddol a chamau lliniaru y mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu eu cymryd. Ategir Cynllun y Chwe Nod gan log Risgiau, Camau Gweithredu, Materion a Phenderfyniadau. Mae meysydd risg unigol yn cael sgôr difrifoldeb, mae perchennog risg yn cael ei neilltuo iddynt ac maent yn cael cynllun gweithredu ar gyfer eu lliniaru. Mae risgiau'n cael eu monitro trwy Fwrdd Rhaglen y Chwe Nod. Mae rhai o'r risgiau a restrir ar y log Risgiau, Camau Gweithredu, Materion a Phenderfyniadau'n gryn her gan eu bod yn ymwneud â heriau o ran y gweithlu ac adnoddau. Mae'r Gofrestr Risgiau Sefydliadol yn adnabod risgiau mewn mwy o fanylder gan gynnwys un sy'n ymwneud â materion o ran ystadau yn Ysbyty Tywysoges Cymru, effaith gynyddol argaeledd gwelyau ac effaith ganlyniadol galw ychwanegol ar gapasiti Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae gan y Bwrdd lechyd nifer o reolaethau yn eu lle ac mae'n tracio cynnydd.
A yw'r cynlluniau'n cyd-fynd â gofynion Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ac yn nodi'n glir sut y bydd y llwybrau clinigol amgen yn gweithio?	Ydynt	Mae cynlluniau'r Bwrdd lechyd yn cyd-fynd â gofynion Rhaglen y Chwe Nod. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cyfuno'r Chwe Nod yn bedair ffrwd waith, a dewisiadau amgen yn lle derbyn i adrannau argyfwng yw'r gyntaf o'r rhain. Mae'r cynlluniau'n nodi manylion mentrau/modelau gwasanaethau a llwybrau clinigol presennol a newydd y mae'r Bwrdd lechyd yn eu cynnig fel dewisiadau yn lle derbyn i adrannau argyfwng. Mae'r Hyb Llywio'n rhan annatod o ffrwd waith un, yn ogystal â pheilota model Canolfan Gofal Sylfaenol Brys leol yng Nghlwestwr Cynon. Mae'r ail ffrwd waith yn canolbwyntio ar roi Gwasanaethau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod a llwybrau mynediad uniongyrchol ar waith.

Cwestiwn archwilio	Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A yw'r cynlluniau'n adnabod lefelau cyfredol a gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu'r uchelgeisiau bwriadedig?	Yn rhannol	Dyrannwyd £2.96 miliwn i'r Bwrdd Iechyd yn 2024-25 i roi cymorth iddo gyflwyno Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Darparodd Cynllun y Chwe Nod gostiadau a oedd yn gysylltiedig â sut y byddai'r arian yma'n cael ei ddyrannu rhwng pum prif faes. £2.7 miliwn oedd y gwariant rhagamcanol, a oedd o fewn y gwariant a ddyrannwyd, ond nid oedd hi'n glir sut y byddai'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r £260,000 a oedd yn weddill o gyfanswm ei ddyraniad (Argymhelliad 1). Yn gadarnhaol, mae Cynllun y Chwe Nod yn adnabod ble y mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio cyllid arall, gan gynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac arian Ymhellach, Yn Gyflymach. Fodd bynnag, nid oedd y cynllun yn adnabod anghenion o ran cyllid y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2024-25 (Argymhelliad 2). Er bod Cynllun y Chwe Nod yn nodi y byddai recriwtio i rai rolau'n creu her o ran gwireddu uchelgeisiau'r cynllun, nid yw'r cynllun yn adnabod yn benodol pa adnoddau gofynnol fydd eu hangen (Argymhelliad 3).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Cael mynediad at wasanaethau

- 19 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau cadarn i annog a galluogi pobl i gael mynediad at y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn, a pha un a yw'r rhain yn gweithio. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:
- cyfeirio cleifion yn effeithiol at y gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n diwallu eu hanghenion orau;
 - bod staff yn gwybod yn iawn pa ystod o wasanaethau sydd ar gael i gleifion ac yn meddu ar wybodaeth dda am y gwasanaethau hynny, a
 - newidiadau i ddarparu gwasanaethau yn arwain at welliannau mewn mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- 20 Canfuom **er bod rhai trefniadau ar waith i gyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau, eu bod yn ddarniog ac yn anodd cael mynediad atynt trwy wefan y Bwrdd lechyd a bod data'n dynodi potensial i wella trefniadau i staff ambiwlansys drin cleifion o bell.**

Cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau

- 21 Canfuom fod **gan y Bwrdd lechyd rai trefniadau i roi gwybodaeth i'r cyhoedd i'w cyfeirio at wasanaethau, ond nad yw trefniadau'n strategol nac yn gyson ag adborth sy'n awgrymu angen i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau.**

Cynlluniau cyfathrebu

- 22 Nid oes gan y Bwrdd lechyd gynllun cyfathrebu ar wahân sy'n nodi sut y mae'n cyfleu negeseuon am ofal brys a gofal mewn argyfwng i'r cyhoedd, ei staff, ac asiantaethau eraill.
- 23 Safbwynt y Bwrdd lechyd yw y dylai cyfeirio ddigwydd trwy gyfarwydddebau cenedlaethol, sef ymgyrchoedd sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth 111, y gwasanaeth 111 pwyso 2 ar gyfer iechyd meddwl a'r ymgyrch dewis doeth. Mae'r Bwrdd lechyd yn brysur ar ei sianelau ar y cyfryngau cymdeithasol, gan bostio'n rheolaidd am wasanaethau 111. Fodd bynnag, nid yw hyn yn hygyrch i'r rhai nad ydynt ar y cyfryngau cymdeithasol.
- 24 Er y gellir deall nad yw'r Bwrdd lechyd yn dymuno darparu gwybodaeth a allai ddrysu'r cyhoedd ynghylch amryw wasanaethau, mae'n bwysig bod ei boblogaeth yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng gwasanaethau sydd ar gael yn y Bwrdd lechyd. Ar ben hynny, ceir gwahaniaethau mewn gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sydd ar gael ar draws tri phrif ysbyty'r Bwrdd lechyd. Gall y gwahaniaethau hyn ei gwneud hi'n anos i gleifion a staff ddeall sut i gael mynediad at wasanaethau.

Gwybodaeth gyhoeddus

- 25 Efallai mai eu meddyg teulu yw'r prif bwynt cyswllt i'r rhan fwyaf o gleifion ag angen brys, ac mae ein hadolygiad ni o'r data sydd ar gael yn awgrymu, rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, bod practisiau meddygon teulu'r Bwrdd Iechyd wedi darparu lefel ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o apwyntiadau brys ac aciwt y dydd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (801 a 777 o apwyntiadau y dydd yn y drefn honno). Mae'r lefel hon wedi gostwng o gyfradd gyfartalog y dydd o 896 ar gyfer 2023-24. Ar ben hynny, dim ond yn ystod y dydd y mae'r apwyntiadau hyn ar gael, ac ar adegau pan fo'r galw'n uchel a'r tu allan i oriau arferol, mae angen cyfeirio cleifion at wasanaethau amgen a all fod mewn sefyllfa well i ddiwallu eu hanghenion.
- 26 Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer y rhai ag anghenion gofal brys a gofal mewn argyfwng megis cael mynediad at ofal iechyd y tu allan i oriau arferol ac unedau mân anafiadau; fodd bynnag, nid yw'n hawdd dod o hyd i'r wybodaeth hon o brif dudalen y Bwrdd Iechyd o ystyried nad yw anghenion gofal brys a gofal mewn argyfwng wedi'u rhestru dan yr adran 'cyngor i gleifion' ar y wefan. (**Argymhelliaid 4**). Os yw'r claf yn ymwybodol o'r gwasanaeth 111, ceir eicon ar y dudalen flaen sy'n eu tywys at ragor o wybodaeth am gael mynediad at ofal brys pan fo'r practis meddyg teulu ar gau.
- 27 Fe wnaethom hefyd ystyried gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd trwy bractisiau meddygon teulu a phractisiau deintyddol i asesu a yw cleifion yn cael eu cyfeirio'n glir os oes ganddynt anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau arferol. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi canlyniadau'r gwaith hwn, a wnaeth adolygu gwefannau a negeseuon ar beiriannau ateb y tu allan i oriau arferol gan 11 o bractisiau meddygon teulu a 15 o bractisiau deintyddol⁴.

Arddangosyn 3: canlyniadau'r adolygiad o wybodaeth practisiau meddygon teulu a deintyddol (Hydref 2024)

Dangosydd	Y Bwrdd Iechyd hwn	Sefyllfa Cymru gyfan
% y gwefannau gan bractisiau meddygon teulu â gwybodaeth gyfeirio eglur	73	57
% y negeseuon ar beiriannau ateb practisiau meddygon teulu â gwybodaeth gyfeirio eglur	73	90
% y gwefannau gan bractisiau deintyddol â gwybodaeth gyfeirio eglur	40	37
% y negeseuon ar beiriannau ateb practisiau deintyddol â gwybodaeth gyfeirio eglur	93	87

⁴ Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o bractisiau deintyddol y GIG a rhai preifat.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 28

Mae gan y Bwrdd lechyd gyfraddau uwch o wefannau gan bractisiau meddygon teulu a phractisiau deintyddol sy'n darparu gwybodaeth gyfeirio eglur o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, er bod perfformiad fel rheol ar draws gwefannau deintyddol yn isel. Mae gwybodaeth gyfeirio eglur mewn negeseuon ar beiriannau ateb practisiau deintyddol yn llawer mwy amlwg, er bod cyfle i wella'r wybodaeth gyfeirio mewn negeseuon ar beiriannau ateb practisiau meddygon teulu.
- 29

Ledled Cymru, mae rhwng 450,000 a 500,000 o bobl yn cael mynediad at y wefan 111 bob mis. Mae gan y Bwrdd lechyd gyfradd is-na'r-cyfartaledd o alwadau 111 y pen o'r boblogaeth meddygon teulu. Ym mis Chwefror 2024, roedd y galwadau 111 a wnaed gan drigolion y Bwrdd lechyd yn rhoi cyfrif am 11.7% o'r holl alwadau. Caiff y pum prif reswm dros alwadau eu nodi yn **Arddangosyn 4**.

Arddangosyn 4: y pum prif reswm dros ffonio 111 (Chwefror 2024)⁵

Y Bwrdd lechyd hwn	% o'r holl alwadau	Sefyllfa Cymru gyfan	% o'r holl alwadau
Poen yn yr abdomen	2.7	Problemau deintyddol	4.1
Poen yn y frest	2.0	Poen yn yr abdomen	2.4
Peswch	1.6	Poen yn y frest	1.6
Brech	1.2	Peswch	1.4
Twymyn	1.1	Brech	1.0

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans - Chwefror 2024

- 30

Poen yn yr abdomen yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros gysylltu ag 111 yn y rhanbarth, er bod y gyfradd hon yn gyson fwy neu lai â sefyllfa Cymru gyfan. Mae'n nodedig bod y Bwrdd lechyd yn un o ddau ranbarth Bwrdd lechyd yn unig lle nad yw problemau deintyddol yn un o'r prif resymau dros ffonio 111. Felly y mae hi er bod data'n dangos mai'r Bwrdd lechyd sydd â'r nifer isaf o gontractau deintyddol fesul 100,000 o'r boblogaeth o'i gymharu â ffigwr Cymru gyfan (12.5 ac 16.8 yn y drefn honno). Mae'n debygol mai'r rheswm yw bod y Bwrdd lechyd yn rheoli galwadau deintyddol brys ac mewn argyfwng trwy ei Hyb Llywio. Yn yr Hyb Llywio mae nyrs ddeintyddol/meddyg teulu yn brysbennu pob galwad ac yn ymdrin â galwadau mewn argyfwng neu alwadau brys yn y modd priodol.

⁵ Oherwydd problemau parhaus gyda'r system 111 newydd a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2024, nid adroddwyd ar unrhyw ddata am y gwasanaeth 111 ers mis Chwefror 2024.

Ymwybyddiaeth cleifion

- 31 Nid oes gan y Bwrdd lechyd fecanweithiau ar hyn o bryd i werthuso effeithiolrwydd y modd y mae'n cyfathrebu gyda'r cyhoedd i ddeall a yw ei weithgarwch yn cyrraedd y gynulleidfa gywir neu a yw ei negeseuon yn newid ymddygiad y cyhoedd o ran y ffordd y maent yn cael mynediad at ofal brys a gofal mewn argyfwng. Yn ystod ein hadolygiad ni, awgrymodd staff o'r Bwrdd lechyd fod cyfle i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gyda staff yn nodi bod y system yn y Bwrdd lechyd yn gymhleth.
- 32 Mae adborth gan Llais⁶ yn dynodi nad ydynt yn cael llawer o gwynion am gyfeirio gan bod y Bwrdd lechyd yn tueddu i weld pobl pryd bynnag y maent yn ymglyfwyno. Er bod hyn yn darparu profiad da i gleifion nid yw'n ategu uchelgeisiau Rhaglen y Chwe Nod i drin pobl yn y lle iawn, y tro cyntaf. Cysylltir yn aml â Llais ynghylch pryderon sy'n ymwneud â'r arosiadau hir ac ardaloedd aros prysur, diffyg mynediad at luniaeth a diffyg dealltwriaeth am oriau agor unedau mân anafiadau.

Ymwybyddiaeth staff a'u gallu i atgyfeirio

- 33 Canfuom fod **datblygu Hyb Llywio'n cefnogi atgyfeiriadau ar gyfer rhai gweithwyr proffesiynol, ond bod data'n awgrymu cyfle i wella trefniadau i staff ambiwlansys drin cleifion o bell.**

Hybu ymwybyddiaeth staff o wasanaethau

- 34 Yn niffyg cynllun cyfathrebu, nid oedd hi'n glir sut y mae'r Bwrdd lechyd yn ymgysylltu â'i staff ynghylch cynlluniau i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng. Dynododd cyfweiliadau gydag ystod o aelodau o staff fel rhan o'r adolygiad hwn fod y dulliau a ddefnyddir yn anghyson.
- 35 Yn ein cyfweiliadau canfuom fod gan staff wybodaeth amrywiol am lwybrau gofal amgen. Fodd bynnag, fe soniodd staff yn gyson am broblemau cael mynediad at un cyfeiriadur gwasanaethau ar gyfer y Bwrdd lechyd, gan nodi bod llwybrau gwahanol gan ddibynnu ar leoliad sy'n rhwystro partneriaid, megis staff ambiwlansys a meddygon teulu, rhag gallu eu defnyddio. Fe wnaeth y rhai y siaradom ni gyda hwy grybwyll ei bod hi'n haws cyfeirio cleifion at yr Adran Argyfwng na llwybr amgen.
- 36 Fe sefydlodd y Bwrdd lechyd Raglen Trawsnewid Meddygaeth Acíwt yn Strategol (STAMP) ym mis Gorffennaf 2024 i ddarparu dull cyson o ddarparu Meddygaeth Acíwt ar draws pob un o'r tri safle acíwt. Trwy'r rhaglen, mae'r Bwrdd lechyd yn adolygu unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod, llwybrau a modelau llif o

⁶ Corff cenedlaethol, annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gasglu barn a phrofiadau'r cyhoedd ac adrodd ar hynny i ddylanwadu ar benderfynwyr yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol yw Llais Cymru

fewn ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Disgwylir i STAMP helpu i safoni dull y Bwrdd Iechyd lle mae gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y cwestiwn.

Atgyfeirio at wasanaethau

- 37

Mae cyfradd y cleifion sy'n ffonio 999 yr ymdrinnir â hwy trwy gyngor neu gyfeirio 'ymgynggori a chau' dros y ffôn yn y Bwrdd Iechyd yn gyson unol â chyfartaledd Cymru gyfan (14.9% o'i gymharu â 15.1% ym mis Ebrill 2024). O'r galwadau hynny, mae'r gyfran a gaiff eu cyfeirio at wasanaethau amgen hefyd yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan (76% o'i gymharu â 72.9%).
- 38

Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth 111 yn cyfeirio cyfran is o gleifion at wasanaethau amgen nag ar lefel Cymru gyfan. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi i ba raddau y mae'r gwasanaeth 111 wedi gallu cyfeirio cleifion at wasanaethau eraill.

Arddangosyn 5: atgyfeirio at wasanaethau eraill (Chwefror 2024)

Dangosydd	Y Bwrdd Iechyd hwn	Sefyllfa Cymru gyfan
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at wasanaeth y tu allan i oriau arferol meddygon teulu	53.0	41.0
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at broffesiwn iechyd arall	2.8	2.4
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at wasanaethau deintyddol	8.5	9.9

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng IGDC, Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

- 39

Yn ystod 2023-24, mae cyfradd atgyfeirio cleifion at wasanaeth y tu allan i oriau arferol meddygon teulu ac at broffesiynau iechyd eraill gan staff 111 wedi bod yn uwch na lefel Cymru gyfan a chyda'r cyfraddau uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae staff 111 wedi bod yn atgyfeirio cyfrannau is o alwadau at wasanaethau gofal deintyddol brys na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae hyn yn cyd-fynd â'r data yn **Arddangosyn 4** sy'n dangos bod y galw am ofal deintyddol brys yn is yn rhanbarth y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan.
- 40

Hefyd, cafodd 4.5% o'r galwadau 999 yn ardal y Bwrdd Iechyd eu trosglwyddo i'r gwasanaeth 111 yn ystod 2023-24. Fodd bynnag, cafodd 29.3% o'r rhain eu trosglwyddo o 111 yn ôl at y llinell ffôn 999 i gael eu hystyried ar gyfer anfon ambiwlans. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 27.6% ar gyfer yr un cyfnod. Mae hyn yn awgrymu, er bod y meddalwedd brysbennu wedi adnabod bod gan y galwr angen llai difrifol am ofal brys ac felly nad oedd angen ymateb iddynt trwy alwad 999, y ceir diffyg gwasanaeth amgen addas ar gyfer y claf

hwnnw, ac y bu angen eu dargyfeirio'n ôl at y gwasanaeth 999 mewn argyfwng o ganlyniad.

- 41 Fe wnaeth y Bwrdd lechyd gyflwyno'r Hyb Llywio yn 2020. Nod yr Hyb Llywio yw darparu opsiynau gofal amgen i gleifion trwy gyngor a chymorth. Gweithwyr ieuchyd a gofal proffesiynol sy'n cael mynediad at yr Hyb Llywio ar ran claf. Yn lle bod derbyniadau i adrannau argyfwng yn ddewis diofyn, gall gweithwyr ieuchyd a gofal proffesiynol gysylltu â'r hyb i gael cyngor clinigol a llwybrau gofal amgen. Mae'r Hyb Llywio'n cymryd galwadau gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y gymuned ac mewn cartrefi nyrsio, gyda gwaith yn mynd rhagddo hefyd i alluogi mynediad ar gyfer cartrefi preswyl. Mae staff ambiwlansys yn gallu atgyfeirio cleifion at yr Hyb Llywio trwy rif ffôn uniongyrchol, ac mae'r Bwrdd lechyd yn darparu hyfforddiant ar gyfer rhai Uwch Ymarferwyr Parafeddygol i gefnogi mynediad uniongyrchol ar eu cyfer at feddalwedd yr Hyb Llywio.
- 42 Mae'r Bwrdd lechyd yn nodi ei fod wedi cael 2,547 o alwadau i'r Hyb Llywio gan gartrefi gofal a staff galwadau a chlinigwyr ambiwlans rhwng mis Ionawr 2023 a mis Ionawr 2024. Mae hefyd yn nodi, yn dilyn gwaith yr Hyb Llywio, bod 88% o'r galwadau hynny o gartrefi gofal a 79% o'r galwadau ambiwlans hynny wedi arwain at osgoi derbyn cleifion i adrannau argyfwng neu gludo cleifion. Er bod y canlyniadau hyn yn gadarnhaol, mae niferoedd y galwadau'n dal i fod yn isel o'i gymharu â'r galw ar y cyfan am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y Bwrdd lechyd. Hefyd, fe wnaeth rhai aelodau o staff y siaradom ni gyda hwy o'r Hyb nodi heriau parhaus gyda rheoli'r gwasanaeth o ran mynediad at le priodol ac offer TG yn ogystal â chadw staff a'r cymysgedd o sgiliau.
- 43 Er bod yr Hyb Llywio'n rhoi cymorth i reoli anghenion am ofal brys a gofal mewn argyfwng ac osgoi rhai galwadau am ambiwlans rhag arwain at gludo cleifion, roedd gallu criwiau ambiwlansys i 'weld a thrin' cleifion yn y fan a'r lle yn ardal y Bwrdd lechyd yn gyson yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn ystod mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Y Bwrdd lechyd oedd â'r gyfradd isaf yng Nghymru ar gyfer mis Mawrth 2025 (8.8% o'i gymharu ag 14.3%). Mae canran y cleifion a atgyfeiriwyd at wasanaethau gofal amgen wedi bod yr isaf yng Nghymru hefyd (5.5% ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu ag 11.9%).
- 44 Yn ystod ein cyfweiliadau clywsom fod cyflwyno Uwch Ymarferwyr Parafeddygol wedi llwyddo i ddargyfeirio cleifion i ffordd o'r Adran Argyfwng. Mae Uwch Ymarferwyr Parafeddygol yn darparu gwasanaethau brysbennu ar gyfer cleifion trwy adolygu'r galwadau 999 sy'n disgwyl i ambiwlans gael ei hanfon, darparu triniaeth yn y gymuned, ac atgyfeirio cleifion at wasanaethau priodol.

Gwasanaethau i helpu i reoli'r galw

- 45 Canfuom fod **data'n awgrymu bod gwasanaethau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod yn y Bwrdd lechyd yn rhoi cymorth effeithiol i reoli'r galw, ond bod cyfle o hyd i gynyddu darpariaeth ychwanegol gan wasanaethau fferyllfeydd cymunedol.**

Gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol

- 46 Ar gyfer 2023-24 roedd gan y Bwrdd lechyd un o'r niferoedd uchaf o fferyllfeydd cymunedol y pen o'r boblogaeth meddygon teulu yng Nghymru, sef 23.1 (o'i gymharu â 20.9 ar lefel Cymru gyfan). Roedd pob un o fferyllfeydd cymunedol y Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i ddarparu'r cynllun anhwylderau cyffredin yn 2023-24. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i fferyllwyr asesu a thrin rhestr gyffredin o fân anhwylderau⁷. Fodd bynnag, pe bai angen meddyginiaeth wrthfotig, yna byddai angen i gleifion gael eu hatgyfeirio at eu meddyg teulu. Roedd nifer yr ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ar gyfer 2023-24 yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (13,598 o'i gymharu â 10,472). Yr anhwylderau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd llid yr amrantau, dolur gwddf, a chlefyd y gwair.
- 47 I ategu'r cynllun, mae rhai fferyllfeydd cymunedol hefyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau estynedig ychwanegol, sy'n ychwanegu ymhellach at allu fferyllwyr cymunedol i ymateb i fân anhwylderau. Mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaeth trin a phrofi dolur gwddf, a'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol. Mae'r ddau wasanaeth yn galluogi'r fferyllydd cymunedol i roi meddyginiaeth wrthfotig ar bresgripsiwn. Hefyd, gall fferyllwyr cymunedol ddarparu'r gwasanaeth oriau ychwanegol, sy'n caniatáu iddynt estyn eu horiau agor a darparu gwasanaeth dros wyl y banc. Caiff y canrannau sy'n darparu'r rhain eu nodi yn **Arddangosyn 6**:

Arddangosyn 6: canrannau'r fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig (2023-24)

Dangosydd	Y Bwrdd lechyd hwn	Sefyllfa Cymru gyfan
% fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth trin a phrofi dolur gwddf	94	79
% y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol	23	28
% y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau oriau ychwanegol	8	16

Ffynhonnell: StatsCymru

- 48 Mae gan y Bwrdd lechyd nifer uwch o fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth trin a phrofi dolur gwddf. Mae gan y Bwrdd lechyd gyfradd is o fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol a gwasanaethau oriau ychwanegol, sy'n awgrymu bod cyfleoedd i'r rhain wella ymhellach. Fodd bynnag, fe wnaeth tystiolaeth anecdotaidd o'n gwaith amlygu hefyd, er eu bod i

⁷ [Cynllun anhwylderau cyffredin](#), 2021

gyd yn rhan o'r cynllun anhwylderau cyffredin, bod gan fferyllfeydd yn y Bwrdd lechyd lefelau amrywiol o allu i roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn gan nad yw'r holl fferyllwyr wedi cymhwyso'n bresgripsiynwyr annibynnol, a allai danseilio hyder cleifion yn y gwasanaeth os nad ydynt yn gallu cael y driniaeth y mae ei hangen arnynt.

Canolfannau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod a Gofal Sylfaenol Brys

- 49 Yn unol ag uchelgeisiau Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu tair uned Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod. Mae ganddo unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod meddygol yn Ysbytai'r Tywysog Siarl, Tywysoges Cymru a Brenhinol Morgannwg sydd ar agor ar hyn o bryd o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 10am tan 6pm. Mae gan Ysbytai Brenhinol Morgannwg a'r Tywysog Siarl uned Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod Lawfeddygol hefyd. Mae gan y Bwrdd lechyd gynlluniau i gynyddu oriau gweithredu ei unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod ac ailddlunio'r llwybrau i mewn i'r uned Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod o'r gwasanaeth ambiwlans, gofal sylfaenol a'r Adrannau Argyfwng.
- 50 Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, roedd gan y Bwrdd lechyd un o'r cyfraddau ymweliadau uchaf yn ei unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu o'i gymharu â'r lefel Cymru gyfan (335.8 o'i gymharu â 249.0), er bod y gyfradd hon wedi bod yn gostwng ers mis Hydref 2023.
- 51 Mae data gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru'n dynodi bod gan y Bwrdd lechyd gyfraddau eithriadol o isel o atgyfeiriadau at unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod gan staff ambiwlans bob mis. Dywedodd staff ambiwlansys wrthym ni mai'r unig uned Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod y maent hwy'n gallu atgyfeirio ati yw'r un yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Fodd bynnag, nid ydynt yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â'r uned Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod a rhaid iddynt fynd trwy'r prif switsfwrdd. Mae hyn yn creu risg y bydd criwiau'n rhoi'r gorau i ymgysylltu â'r gwasanaeth yn enwedig gan y bu hanes o wrthod derbyn os yw criwiau allan o'r ardal. Ym mis Ebrill 2022, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru bolisi⁸ Cymru gyfan i annog parafeddygon i atgyfeirio'n uniongyrchol at unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod. Mae'r data uchod ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd trwy ein gwaith maes ni'n dynodi nad yw'r Bwrdd lechyd yn ymlynu wrth y polisi hwn ar hyn o bryd (**Argymhelliad 5**).
- 52 Yn ôl arfer da, dylai fod cyfraddau rhyddhau uchel o unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol. Yn y Bwrdd lechyd, mae canran y cleifion a gaiff eu rhyddhau o'r unedau Gofal mewn Argyfwng yr Un Diwrnod wedi bod yn weddol sefydlog, gyda chyfradd gyfartalog o

⁸ Atgyfeirio uniongyrchol gan barafeddygon at ofal mewn argyfwng ar yr un diwrnod: polisi Cymru gyfan, Ebrill 2022

93% rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 84% ar gyfer yr un cyfnod. Mae hyn yn dynodi defnydd priodol o'r unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod.

- 53 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd brofi model Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys yn 2021. Daeth y gwerthusiad o'r peilot i'r casgliad y byddai'r gwasanaeth yn rhy gostus i'w gyflwyno ymhellach ac y byddai'n dadsefydlogi practisiau meddygon teulu. Fe gytunwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn rhoi Hyb Llywio ar waith i sicrhau darpariaeth deg ar gyfer y gymuned. Fodd bynnag, fe gynhaliwyd peilot ar gyfer Canolfan Triniaeth Frys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a helpodd i gefnogi'r galw wrth y drws blaen. Dengys data ar gyfraddau cyswllt y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys fod y ganolfan hon wedi dechrau derbyn cysylltiadau o fis Tachwedd 2024. Gwelwyd niferoedd bychain o gysylltiadau rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025, gyda 53 o gysylltiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y rhanbarth ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfradd gyfartalog o 433 o gysylltiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth ledled Cymru. Daeth cyllid ar gyfer y peilot i ben ym mis Mawrth 2025 ond ar adeg ein harchwiliad ni roedd gwerthusiad yn cael ei gynnal i chwilio am gyfle i estyn y prosiect.

Effaith newidiadau i wasanaethau ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng

- 54 Canfuom fod **perfformiad o ran oedi cyn trosglwyddo'n cymharu'n well â byrddau iechyd eraill, ond bod cyfleoedd o hyd i ddefnyddio unedau mân anafiadau'n well a lleihau amseroedd trosglwyddo ac arosiadau mewn Adrannau Argyfwng ymhellach.**

Perfformiad ambiwlansys

- 55 Ers y pandemig, mae galwadau 999 i'r gwasanaeth ambiwlans ledled y Bwrdd Iechyd wedi parhau i godi ac maent bellach wedi mynd y tu hwnt i'r lefel a brofwyd gan y gwasanaeth cyn y pandemig gyda chyfartaledd o 792 o alwadau coch y mis rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd o 350 o alwadau rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Er eu bod yn dal i roi cyfrif am y rhan fwyaf o alwadau 999, mae nifer y galwadau ambr wedi gostwng ers y pandemig gyda chyfartaledd o 3,035 o alwadau y mis rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, o'i gymharu â 3,742 rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.
- 56 Mae'r gyfradd cludo cleifion yn y Bwrdd Iechyd i ysbytai gan griwiau ambiwlans wedi lleihau ers lefelau cyn y pandemig o 72.9% (Ebrill 2019 – Mawrth 2020) i 68.4% (Ebrill 2024 – Mawrth 2025). Fodd bynnag, y gyfradd hon yw'r uchaf yng Nghymru (63.3% oedd cyfartaledd Cymru gyfan rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025). Mae hyn yn awgrymu bod rhagor o waith i'w wneud i leihau teithiau cludo i'r ysbyty gan ddefnyddio gwasanaethau amgen, megis ehangu'r Hyb Llywio. Mae **Arddangosyn 7** yn nodi pen y daith ar gyfer yr holl deithiau cludo.

Arddangosyn 7: pen y daith ar gyfer teithiau cludo fel cyfran o gyfanswm y teithiau cludo (Ebrill 2024 – Mawrth 2025)

Dangosydd	Y Bwrdd lechyd hwn	Tuedd	Sefyllfa Cymru gyfan
% y cleifion a gludwyd i brif adrannau argyfwng	98.4		88.8
% y cleifion a gludwyd i unedau mân anafiadau	0.4		6.2
% y cleifion a gludwyd i brif unedau derbyniadau meddygol aciwt	0.1		3.1
% y cleifion a gludwyd i uned arall e.e. uned iechyd meddwl neu famolaeth	1.2		1.8

Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwylans

- 57

Mae criwiau ambiwlans yn cludo cyfran uwch o gleifion i brif Adrannau Argyfwng y Bwrdd Iechyd na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r gyfradd cludo i brif unedau derbyniadau meddygol aciwt, gan gynnwys unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod, gyda'r isaf yng Nghymru. Er bod parafeddygon yn gallu cludo cleifion i Unedau Mân Anafiadau, yn ymarferol ychydig iawn sy'n gwneud hynny, gyda chyfraddau cludo ledled y Bwrdd Iechyd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r Unedau Mân Anafiadau wedi'u lleoli yn Ysbyty Cwm Cynon ac Ysbyty Cwm Rhondda.
- 58

Dengys data fod oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ledled y Bwrdd Iechyd yn dal i fod ar lefelau annerbyniol o uchel. Roedd canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys a gwblhawyd o fewn 15 munud rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 yn 22.7% yn unig, yn erbyn targed cenedlaethol o 100%. Fodd bynnag, y perfformiad hwn yw'r ail uchaf yng Nghymru, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan o 15.5%. Ac eithrio amrywiadau tymhorol, mae perfformiad trosglwyddo wedi aros yn weddol gyson ers mis Medi 2021. Er gwaethaf hyn, mae oedi cyn trosglwyddo'n dal i arwain at nifer uchel o oriau a gollwyd. Fe gollodd y Bwrdd Iechyd 2,412 o oriau bob mis ar gyfartaledd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025.
- 59

Darganfu adolygiad clinigol a ddatblygwyd gan Gymdeithas y Prif Weithredwyr Ambiwylans⁹ fod cyfradd y niwed i gleifion yn cynyddu pan fo'u trosglwyddiadau'n cymryd dros awr i'w cwblhau. Dynododd yr adolygiad hwn fod y tebygolrwydd y byddai claf yn profi niwed difrifol, neu barhaol, yn 7% ar gyfer trosglwyddiadau sy'n cymryd rhwng awr ac awr a hanner, yn 10% ar gyfer trosglwyddiadau sy'n cymryd rhwng dwy a thair awr, ac yn 27% ar gyfer trosglwyddiadau sy'n cymryd dros bedair awr i'w cwblhau. Dangosodd data o fis Mehefin 2025 fod 16.1% (306) o

⁹ ['Delayed hospital handovers: Impact assessment of patient harm'](#) Cymdeithas y Prif Weithredwyr Ambiwylans, Tachwedd 2021.

drosglwyddiadau yn y Bwrdd lechyd wedi cymryd dros awr i'w cwblhau, bod 4% (88) o drosglwyddiadau wedi cymryd rhwng dwy a thair awr i'w cwblhau, a bod 1% (32) o drosglwyddiadau wedi cymryd dros dair awr i'w cwblhau¹⁰.

60 Mae oedi cyn trosglwyddo cleifion yn rhwystri i allu staff ambiwlans i ymateb i alwadau brys ac argyfwng eraill yn y gymuned. Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn dal i fod yn gryn her ac islaw targedau perfformiad (**Arddangosyn 8**). Roedd canran y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 islaw cyfartaledd Cymru gyfan ac yn sylweddol is na'r targed o 65%. Yn ystod yr un cyfnod, roedd yr amser ymateb i alwadau ambr yn ddwy awr 23 munud, 31 munud yn uwch na sefyllfa Cymru gyfan. Mae perfformiad wedi amrywio rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025.

Arddangosyn 8: amseroedd ymateb i alwadau coch ac ambr (Ebrill 2024 – Mawrth 2025)

Dangosydd	Y Bwrdd lechyd hwn	Tuedd	Sefyllfa Cymru gyfan
% y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud	44.9		48.7
Ymateb canolrifol i alwadau ambr (munudau)	143		112

Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwylans

Perfformiad Adrannau Argyfwng

- 61 Yn y Bwrdd lechyd, mae cyfradd yr ymweliadau ag Adran Argyfwng fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (3,064 a 1,989 yn y drefn honno). Fe gynyddodd y cyfraddau'n sylweddol ym mis Mawrth 2025. Ers mis Ionawr 2025, mae'r Bwrdd lechyd wedi hysbysu am ddigwyddiadau parhad busnes (BCI) ar ei safleoedd ar bum achlysur ar wahân.
- 62 Mae amseroedd aros yn yr Adrannau Argyfwng yn y Bwrdd lechyd wedi aros yn gymharol ddigyfnawid dros y deuddeng mis diwethaf, ac islaw cyfartaledd Cymru gyfan. Roedd canran y cleifion a oedd yn treulio llai na phedair awr yn yr Adrannau Argyfwng ym mis Mawrth 2025 yn 65.4%, o'i gymharu â 66.1% ym mis Ebrill 2024. Mae nifer y cleifion sy'n treulio dros 12 awr yn yr Adran Argyfwng wedi cynyddu 80% o 939 o gleifion ym mis Ebrill 2019 i 1,691 o gleifion ym mis Mawrth 2025. Unwaith y maent wedi cael eu hasesu, mae'r gyfradd dderbyn yn is na chyfartaledd

¹⁰ Nid yw adroddiadau perfformiad y Bwrdd lechyd yn manylu ar nifer y trosglwyddiadau sy'n cymryd dros bedair awr.

Cymru gyfan, ar 18.2% rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, o'i gymharu â 22.3% ledled Cymru.

Trefniadau craffu a monitro

- 63 Mae'r adran hon yn ystyried a yw'r Bwrdd lechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ac yn rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella gwasanaethau ymhellach. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:
- trefniadau i fonitro effaith llwybrau clinigol amgen; a
 - goruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar gyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- 64 Canfuom fod **goruchwyliaeth a chraffu ar berfformiad a chyflawni cynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn effeithiol, ond nad yw'n glir sut y mae adborth cleifion a staff yn cael ei ddefnyddio i oleuo a chryfhau cynlluniau.**

Monitro effaith

- 65 Canfuom fod **trefniadau i fonitro mynediad cleifion at wasanaethau'n briodol yn dal i esblygu ac, er bod y Bwrdd lechyd yn casglu adborth staff a chleifion, nad yw'n glir sut y mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i oleuo gwelliannau.**
- 66 Caiff y canfyddiadau a'n harweiniodd at y casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 9.**

Arddangosyn 9: dull o fonitro effaith ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Cwestiwn archwilio	Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A yw'r Bwrdd lechyd yn tracio data ac yn adrodd arno i ddangos a yw cleifion yn cael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng mewn modd priodol?	Yn rhannol	Mae trefniadau'r Bwrdd lechyd i fonitro effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen yn dal i esblygu. Gwelsom dystiolaeth o adroddiadau a thrafodaethau rheolaidd am ddata ar berfformiad o ran oedi gydag amseroedd ymateb ambiwlansys ac oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys gyda dangosfyrddau gofal brys a gofal mewn argyfwng ac Adrannau Argyfwng yn darparu data byw ar gyfer y Bwrdd lechyd trwy gydol y dydd. Er bod gan y Bwrdd lechyd fetrigau da ar gyfer meysydd megis yr Hyb Llywio a'i Adrannau Argyfwng,

Cwestiwn archwilio	Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol	Canfyddiadau
		roedd staff yn cydnabod bod angen gwella'r data yma gan nad yw'r data yn ei fformat presennol yn darparu mewnwelediad ar gyfer y Bwrdd lechyd i effaith glinigol gwasanaethau amgen ar ddeilliannau cleifion. Byddai'r wybodaeth hon yn helpu'r Bwrdd lechyd i ddeall sut y mae gwasanaethau'n cael eu defnyddio a chynllunio gwelliannau pellach (Argymhelliad 6). Lleisiodd staff bryderon hefyd ynghylch dibynadwyedd data gweithrediadol, gan sôn am anghysonderau rhwng data'r Bwrdd lechyd a data Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i sicrhau cofnod cyffredin a chywir o'r galw a chapasiti (Argymhelliad 7).
A yw adborth rheolaidd gan gleifion yn cael ei geisio a'i ddefnyddio i oleuo a gwella cynlluniau?	Yn rhannol	Mae adborth rheolaidd gan gleifion yn cael ei geisio'n frwd ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys yr Hyb Llywio. Cesglir adborth yn bennaf trwy'r system CIVICA¹¹. Mae adborth cleifion yn cael ei gynnwys mewn diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, a'r Bwrdd. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno'n ôl fel rhan o'r drefn arferol i Fwrdd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ac nid yw'n glir sut y defnyddir yr wybodaeth hon i siapia prosesau penderfynu na newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau. Gofynnodd y Bwrdd lechyd yn ddiweddar am adborth staff a chleifion trwy'r adolygiad STAMP yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Fodd bynnag, eto, nid yw'n glir sut y mae gwasanaethau'n cael eu gwella na'u newid wedi hynny. (Argymhelliad 8).
A yw adborth staff yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar effaith newidiadau i wasanaethau a rhaglenni peilot i	Ydy	Ceir ymgynghoriadau rheolaidd â staff. Er enghraifft, fe gychwynnodd y Bwrdd lechyd broses ysgogi syniadau trwy ymgysylltu â staff o'r enw "Simply do", lle cafodd staff eu hannog i feddlw am syniadau ynglŷn â sut i wella prosesau a dulliau. Fe ymatebodd dros 200 o staff. Roedd y Bwrdd lechyd wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau ar adeg yr archwiliad.

¹¹ Platform meddalwedd sydd wedi'i fwriadu i fesur adborth cleifion mewn sefydliadau gofal ieuchyd yw CIVICA.

Cwestiwn archwilio	Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol	Canfyddiadau
adnabod gwersi a'u rhoi ar waith?		Hefyd, fel rhan o'r rhaglen STAMP, fe gasglwyd barn staff i wneud gwelliannau i lif yr unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod. Er gwaethaf hyn, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn dynodi'n glir yn ei gynlluniau na'i adroddiadau sut y mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud gwelliannau.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Goruchwyllo a chraffu

- 67 Fe wnaethom ystyried a oes goruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar gyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- 68 Canfuom fod **goruchwyliaeth a chraffu rheolaidd ar berfformiad a chyflawni cynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng, er y gellid cryfhau hyn ymhellach trwy sicrhau bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru'n cael ei chynrychioli mewn trafodaethau strategol.**
- 69 Caiff y canfyddiadau a'n harweiniodd at y casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 10.**

Arddangosyn 10: dull o oruchwyllo a chraffu ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Cwestiwn archwilio	Oes/ Nac oes/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A oes goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn weithrediadol, gan gynnwys craffu a sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd cynlluniau a chatau	Yn rhannol	Mae Bwrdd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn cwrdd bob chwe wythnos ac yn darparu fframwaith ar gyfer adrodd wrth Grŵp Arwain Gweithredol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, er bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru'n cael cyfarfodydd rheolaidd ar lefel weithrediadol, nid yw'n cael ei chynrychioli ym Mwrdd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (Argymhelliad 9).

Cwestiwn archwilio	Oes/ Nac oes/ Yn rhannol	Canfyddiadau
gweithredu a gymerir i ateb y galw'n well?		Mae Bwrdd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng hefyd yn darparu adroddiadau ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
A oes goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r Bwrdd, gan gynnwys craffu a sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd cynlluniau a chymau gweithredu a gymerir i ateb y galw'n well?	Oes	Ceir goruchwyliaeth effeithiol ar lefel y Bwrdd ac ar lefel Pwyllgorau. Mae'r modd y cyflawnir y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng yn cael ei fonitro trwy adroddiadau ar y prif bwyntiau a gynhyrchir gan Fwrdd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Rhennir yr adroddiadau hyn gyda'r Pwyllgor Cyflawni Gweithrediadol (un o is-bwyllgorau'r Bwrdd) trwy'r Grŵp Arwain Gweithredol. Mae adroddiadau fel arfer yn cynnwys gwybodaeth am yr Hyb Llywio a pherfformiad yn erbyn Cynllun y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae'r Bwrdd lechyd yn adrodd ar berfformiad wrth y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyflawni Gweithrediadol ym mhob cyfarfod trwy Ddangosfwrdd Perfformiad Integredig. Mae'r Dangosfwrdd Perfformiad Integredig yn cynnwys nifer o fetrigau sy'n ymwneud â rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys amseroedd ymateb ambiwlansys, amseroedd aros adrannau argyfwng a phractisiau meddygon teulu sy'n cyrraedd y Safonau Mynediad Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau o fewn oriau arferol.
A oes trefniadau i fonitro a goruchwyllo darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddiad mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru?	Oes	Mae Bwrdd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn monitro gwariant ar gyfer eu rhaglen chwe nod trwy adroddiad chwarterol ar gynnydd sy'n cynnwys gwariant ar Ofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys/Hyb Llywio a ffrydiau gwaith Digidol cysylltiedig. Mae'r Adroddiad Monitro Misol ar gyfer mis 12 yn 2024-25 yn dangos bod y Bwrdd lechyd wedi gwario ei ddyraniad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn unol â'i Gynllun Chwe Nod.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 11** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

Arddangosyn 11: dulliau archwilio

Elfen o'r ymagwedd archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys: • Cynllun Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (gan gynnwys adnoddau gofynnol a chostiadau); • Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun Blynnyddol; • Cynllun Rhaglen y Chwe Nod ac adroddiadau ar gynnydd gydag ef, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru; • Adroddiadau perfformiad ar ofal brys a gofal mewn argyfwng i'r Bwrdd a phwyllgorau; • Adroddiadau gwerthuso a oedd wedi'u bwriadu ar gyfer mentrau i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol; • Cylch gorchwyl Bwrdd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ei agendâu ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf a phapurau sy'n berthnasol i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol; • Canlyniadau arolygon cleifion mewn perthynas â hygyrchedd gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng; a • Diagramau sy'n nodi strwythur gofal brys a gofal mewn argyfwng.
Cyfweliadau	Fe wnaethom gyfwrdd â'r canlynol: • Cyfarwyddwr Clinigol – Meddygaeth Acíwt, • Cyfarwyddwr Clinigol – Meddygaeth mewn Argyfwng ac Acíwt • Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu – Gofal Acíwt • Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu – Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedau ac Iechyd Meddwl • Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion

Elfen o'r ymagwedd archwilio	Disgrifiad
	- Rheolwr y Gyfarwyddiaeth - Meddygaeth mewn Argyfwng ac Acíwt - Prif Swyddog Gweithredu - Arweinydd Lleol ar gyfer Llais Cymru - Cyfarwyddwr Meddygol – Gofal Heb Ei Drefnu - Pennaeth Gwybodaeth am Berfformiad - Gofal Heb Ei Drefnu - Datblygwr Ap y Dangosfwrdd - Gofal Heb Ei Drefnu - Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol - Arweinydd Clinigol Tîm Triwriaeth y Chwe Nod - Cyfarwyddwr Grŵp Gofal Heb Ei Drefnu - Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng – Rheolwr y Rhaglen - Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar gyfer y Bwrdd Iechyd
Trafodaethau grŵp	Fe gynhaliom ni drafodaethau grŵp gyda'r canlynol: Arweinwyr gwasanaethau y Tu Allan i Orlau Arferol Meddygon Teulu a chynrychiolwyr Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng o'r Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (Clinigol a Gweithrediadol)
Dadansoddi data	Fe wnaethom ddadansoddi data a oedd yn ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan ddefnyddio'r ffynonellau canlynol: - Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwylans; - Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng IGDC; - StatsCymru; - Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau y tu allan i oriau arferol meddygon teulu; a - Ffurflenni Monitro Misol.
Adolygiadau o wefannau a phractisiau	Fe wnaethom adolygu gwefan y Bwrdd Iechyd a'i gyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd am gael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Elfen o'r ymagwedd archwilio	Disgrifiad
	Fe wnaethom adolygu sampl o 11 o wefannau a pheiriannau ateb gan bractisiau meddygon teulu a 15 o wefannau a pheiriannau ateb gan bractisiau deintyddol.

Mae'r holl waith archwilio wedi cael ei gyflawni yn unol â safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Atodiad 2

Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 12** yn nodi'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn.

Arddangosyn 12: meini prawf archwilio

Cwestiynau archwilio	Meini prawf archwilio
A oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng?	
A yw cynlluniau'n ceisio gwella'r modd y rheolir y galw trwy newidiadau i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r chwe nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng?	• Mae strategaethau a/neu gynlluniau sy'n ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng: – yn seiliedig ar wybodaeth gyfoethog a chyfoes ac wedi'u gwreiddio ynddi, wedi'u goleuo gan ddata ar y galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng (yn y gorffennol a'r dyfodol), gan gynnwys brigau mewn gweithgarwch ar adegau/diwrnodau ac mewn misoedd a demograffeg a chyflyrau cleifion penodol. – yn adnabod ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. – yn cyd-fynd â gofynion Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng i reoli'r galw'n well. – yn cynnwys gwybodaeth wedi'i dogfennu am lwybrau clinigol amgen, gan gynnwys sut a phryd y dylid ceisio mynediad atynt.

Cwestiynau archwilio	Meini prawf archwilio
A yw cynlluniau'n adnabod lefelau cyfredol a gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu'r uchelgeisiau?	- Mae strategaethau a/neu gynlluniau'n nodi'r: - gofynion o ran adnoddau a chyllid a adnabuwyd i gefnogi unrhyw newidiadau i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth/cynllun. - gweithlu a sgiliau sy'n ofynnol i ateb y galw, gan gynnwys ar gyfer newidiadau mewn modelau darparu megis brigau yn y gaeaf. Mae'r cynllun yn eglur ynghylch yr adnoddau sy'n ofynnol o ran sgiliau/staff clinigol ac anghlinigol.
A oes trefniadau ar waith i annog a galluogi pobl i gael mynediad at y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf, ac a yw'r rhain yn gweithio?	
A yw'r Bwrdd Iechyd yn cyfeirio'r cyhoedd yn effeithiol at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, fel eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau mewn modd priodol?	- Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth eglur am wasanaethau sydd ar gael a dewisiadau yn lle adrannau argyfwng ar gyfer y cyhoedd mewn amryw ffyrdd – gwefannau, trinwyr galwadau, posteri/taflenni, hysbysebion, gwefannau a llinellau ffôn meddygon teulu/deintyddion, y cyfryngau cymdeithasol, fideos a.y.b. - Mae strategaethau a/neu gynlluniau ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn cyd-fynd â gofynion nodau 2 a 3 yn Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf) - Ceir tystiolaeth i awgrymu bod gan gleifion ddealltwriaeth dda am sut i geisio mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n briodol i'w hanghenion.
A oes gan staff wybodaeth dda, a mynediad at wybodaeth, am yr ystod o wasanaethau eraill sydd ar gael i'w cleifion ac ar ba adegau y maent ar gael?	- Ceir ymgysylltu rhwng Byrddau Iechyd a chlystyrau meddygon teulu / deintyddion / parafeddygon / fferyllwyr am lwybrau amgen sy'n bodoli a dyfodol gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gwybodaeth am y llwybrau a'r gwasanaethau hyn yn hygyrch i staff. - Gall staff atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol / eu hailgyfeirio at leoliadau mwy priodol i'w hanghenion, gan gynnwys Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC) a Chanolfannau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod (SDEC).

Cwestiynau archwilio	Meini prawf archwilio
A oes tystiolaeth bod newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau'n arwain at reoli'r galw'n well?	- Mae atgyfeiriadau i mewn i fodelau gwasanaeth newydd yn unol ag uchelgeisiau'r llawlyfr polisi chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng. - Gall YGAC atgyfeirio o leiaf 4% o achosion at Ganolfannau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod. - Mae galwadau i 111 yn cael eu hateb yn gyflym ac mae cyfraddau'r galwadau y rhoddir y gorau iddynt yn isel. - Mae amseroedd ymateb ambiwlansys argyfwng, oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ac arosiadau mewn Adrannau Argyfwng ac Unedau Mân Anafiadau yn gwella. - Mae data'n dangos bod llai o gleifion ag anhwylderau aciwtedd isel / mân anhwylderau yn ymgwyflwyno mewn Adrannau Argyfwng. - Mae data'n dynodi ystod dda o argaeledd apwyntiadau meddygon teulu. - Mae data'n dynodi bod galwadau a gaiff eu hailgyfeirio rhwng 999 ac 111/Galw'r GIG Cymru yn briodol gyda lefelau isel o alwadau'n cael eu hailgyfeirio'n ôl a niferoedd isel o gyfraddau ailgysylltu.
A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella'r gwasanaethau ymhellach?	
A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen, gan gynnwys trwy geisio adborth gan staff a defnyddwyr gwasanaethau?	- Mae'r Bwrdd Iechyd yn tracio data ac yn adrodd ar ddata i ddangos a yw cleifion yn ceisio mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng mewn modd priodol. - Gall y Bwrdd Iechyd ddangos tystiolaeth ei fod yn ceisio adborth cleifion yn rheolaidd a'i fod yn ei ddefnyddio i oleuo a gwella cynlluniau. - Mae adborth rheolaidd yn cael ei geisio gan staff amrywiol ar effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot i adnabod gwersi a'u rhoi ar waith.

Cwestiynau archwilio	Meini prawf archwilio
A oes craffu a sicrwydd effeithiol mewn perthynas â chyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng a llwybrau clinigol amgen?	• Ceir goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel weithrediadol ac ar lefelau pwyllgorau a'r bwrdd. Mae hyn yn cynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau gweithredu i ateb y galw'n well. Goleuir gweithgarwch goruchwyllo a chraffu gan feincnodi cymharol a gwersi o gyrff eraill lle y bo'n briodol. • Ceir trefniadau i fonitro a goruchwyllo darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddi mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys canfod gwerth am arian a pha wahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud.

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 13** yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a wnaed oherwydd yr archwiliad hwn.

Arddangosyn 13: ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1 Dylai cynlluniau'r Chwe Nod yn y dyfodol eglurhau sut y defnyddir y dyraniadau ariannol i gyd (Arddangosyn 2).	Mae dyraniad ariannol y Chwe Nod yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir ar draws y llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng. Caiff dyraniad ariannol a chynlluniau manwl eu cynhyrchu'n flynyddol a'u rhannu gyda Perfformiad a Gwella GIG Cymru ac wedi hynny gyda Llywodraeth Cymru trwy dîm cenedlaethol Rhaglen y Chwe Nod. Mae cynlluniau cyflawni a dyraniad ariannol 2025/26 yn amodol ar adolygiad a phenderfyniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cynllunio a chyflawni blaenoriaethau gweinidogol yn y dyfodol. Bydd gofynion wedi'u diweddarau ar gyfer cyflawni blaenoriaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael eu rhyddhau ar 19 Rhagfyr 2025.	Rhagfyr 2025 – Ionawr 2026	Gethin Hughes (Prif Swyddog Gweithredu – Uwch Swyddog Cyfrifol y Chwe Nod)

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A2 I roi cymorth i gyflawni mentrau sy'n gysylltiedig â'r Chwe Nod yn barhaus, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ei gynlluniau ar gyfer y Chwe Nod yn adnabod unrhyw anghenion o ran cyllid y tu hwnt i'r dyraniad blynyddol cyfredol (Arddangosyn 2).	Dylai anghenion cyllid i gefnogi cyllid cyfredol y Chwe Nod i sicrhau bod trawsnewid yn cael ei gyflawni'n gynaliadwy ar draws y llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng gael ei adnabod a'i ddisgrifio yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI) grwpiau gofal.	31 Mawrth 2026	Sarah James – Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu
A3 I roi cymorth i wireddu uchelgeisiau ei gynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd lechyd nodi'n glir beth yw'r gofynion o ran y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol (Arddangosyn 2).	Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Argyfwng ac Aciwt yn cynnal asesiad cynhwysfawr o gapasiti cyfredol y gweithlu gan amcanu at amlinellu'r rolau, sgiliau a lefelau staffio ychwanegol y mae eu hangen i ddiwallu anghenion gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol. Fe gynhaliwyd adolygiad o'r gweithlu ar gyfer meddygaeth mewn argyfwng yn YTS ym mis Tachwedd 2025, gyda'r disgwyl y bydd adolygiadau yn YTC ac YBM yn digwydd yn chwarter 4. Mae gofynion o ran y gweithlu meddygaeth aciwt yn cael eu hadolygu fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Meddygaeth Aciwt yn Strategol (STAMP)	31 Mawrth 2026	Lee Collins – Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaeth Ruth Morrissey – Rheolwr y Gyfarwyddiaeth
A4 I sicrhau bod cleifion yn gallu dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym ac yn hyderus, dylai'r Bwrdd lechyd wella amlygrwydd a hygyrchedd gwybodaeth am ofal brys a gofal mewn argyfwng ar hafan dudalen ei brif wefan. Gallai hyn gynnwys ychwanegu dolen neu faner	Byddwn yn cynnal cyswllt ag adran Gyfathrebu CTM i sicrhau bod gwybodaeth briodol ac eglur yn hygyrch ac yn weladwy i'r cyhoedd.	Ionawr – Chwefror 2026	Rheolwr Rhaglen y 6 Nod Arweinydd Cyfathrebu

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
wedi'i labelu'n glir sydd mewn lle amlwg (Paragraff 26).			
A5 I sicrhau y cydymffurfir â'r meini prawf a'r canllawiau cenedlaethol ynghylch atgyfeirio at unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod, dylai'r Bwrdd lechyd gynnal archwiliad o'i ddata ar unedau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i'r pwyllgor priodol (Paragraff 51).	Bydd y Bwrdd lechyd yn defnyddio platfform SAMBA i gynnal archwiliad o Ofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod ar draws pob un o'r tri ysbyty cyffredinol dosbarth. Yn ogystal â hyn, mae'r tîm perfformiad a gwella cenedlaethol yn cynnal archwiliadau ar wahân i ddarparu dadansoddiad meincnodi o ganfyddiadau a data. Fe gynhaliwyd archwiliad diweddar ym mis Tachwedd 2025, ac mae BIP CTM yn disgwyl am ganlyniadau'r adolygiad.	Chwefror - Mawrth 2026	Timau triwriaeth y Grŵp Gofal Heb Ei Drefnu a'r Grŵp Gofal a Gynlluniwyd
A6 I oleuo prosesau penderfynu, dylai'r Bwrdd lechyd wella ei drefniadau casglu data i gasglu gwybodaeth am effaith glinigol gwasanaethau amgen, megis y rhai y ceir mynediad atynt trwy'r Hyb Llywio (Arddangosyn 9).	Mae'r Bwrdd lechyd yn casglu ac yn dadansoddi data'n rheolaidd (yn fisol) gan wasanaethau cymunedol megis yr Hyb Llywio i ystyried datblygiadau pellach mewn gwasanaethau a rhoi llwybrau newydd ar waith. O ganlyniad i adolygu a dadansoddi o'r fath ceir llwybrau newydd: Llwybr Anadlol a ward rithwir ar gyfer cleifion â Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint	Chwefror 2026	Sarah Bradley

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Llwybr Podiatreg sy'n cefnogi Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a phresgripsiynu yn y gymuned Llwybr Ymateb i Gwympiadau – asesiad clinigol o bobl a gwmpodd yn y gymuned a dull cydweithredol gyda thimau ymatebwyr symudol awdurdodau lleol		
A7 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng a'i ddilysu'n rheolaidd, fel y gellir cymryd mwy o sicrwydd wrth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y data sydd ar gael (Arddangosyn 9).	Mae'r Bwrdd lechyd yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu a dilysu data gofal brys a gofal mewn argyfwng a gesglir yn lleol ac yn genedlaethol h.y. SEDIT/GIRFT. O ganlyniad i adolygu a dilysu o'r fath, fe sefydlwyd Canolfan Driniaeth Frys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful i gefnogi galw uchel o ran cleifion yn ymglyfwyno ag aciwtedd is a fyddai'n addas i gael eu gweld gan feddyg teulu. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli'n agos at yr Adran Argyfwng sy'n galluogi ymateb gweld a thrin amserol ac yn lleihau nifer y cleifion sy'n aros yn yr Adran Argyfwng.	Wedi'i gwblhau	Sarah Follows
A8 I sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn adeiladu ar adborth gan staff a chleifion, dylai cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng ddangos sut y maent wedi ystyried adborth staff a chleifion (Arddangosyn 9).	Mae adrodd ar PREMS yn flaenoriaeth uchel gan ddefnyddio Codau QR a darperir diweddariad ar y dadansoddiad o'r canlyniadau yn yr adroddiad bob deufis ar Ofal Heb Ei Drefnu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad Cleifion. Mae'r manylder yn adrodd ar ddiweddariadau o ganfyddiadau blaenorol.	Mawrth 2026	Deborah Matthews Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Heb Ei Drefnu

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Mae'r meysydd clinigol yn cynnwys "Byrddau Gwerthfawrogi", ac "Fe ddwedoch chi" ac "Fe wnaethom ni". Adroddir ar yr uchod yn Profiad Pobl bob chwarter. Adroddir trwy'r cyfarfodydd partneriaeth Leol gyda Gofal Heb Ei Drefnu yn disgrifio unrhyw waith gwella. Mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) wedi'i leoli yn y meysydd hyn ac yn darparu adborth manwl, yn gadarnhaol ac unrhyw faterion y mae gofyn gweithredu arnynt ar unwaith fel y ceir ymateb rhagweithiol gan y Tîm Amlddisgyblaeth. Perthynas weithio agos ag AGIC a LLAIS, lle ymatebir yn ffurfiol i unrhyw faterion a adnabuwyd gyda thystiolaeth o welliannau parhaus. Mae'r Arolwg Staff yn allweddol ac mae cydymffurfiaeth Gofal Heb Ei Drefnu yn uwch nag ar unrhyw adeg arall dros y blynyddoedd diwethaf ar 28%		
A9 I gryfhau ei allu i gydgyssylltu cynlluniau strategol a newidiadau i wasanaethau ar gyfer ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd lechyd gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel	Roedd Bwrdd Rhaglen y Chwe Nod a'i Gylch Gorchwyl a gynhyrchwyd ar ddechrau'r rhaglen wastad wedi defnyddio dull cydweithredol a seiliedig-ar-bartneriaeth o gyflawni amcanion y rhaglen gyda rhanddeiliaid y tu allan i BIP CTM,	Wedi'i gwblhau Rhagfyr 2023	Gethin Hughes (Prif Swyddog Gweithredu – Uwch Swyddog

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
aelod o'i Fwrdd Cyflawni ar gyfer y Chwe Nod (Arddangosyn 10).	megis Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yn cael eu cynnwys.		Cyfrifol y Chwe Nod)

Ffynhonnell: Archwilio Cymru



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.